

Cynllun Iaith Gymraeg Drafft

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd: 11 Ionawr 2006

Dyddiad cau ar gyfer derbyn 22 Mawrth 2006
eich ymatebion:

Cynnwys

Adran

1	Cyflwyniad
2	Cefndir
3	Cynllunio a darparu gwasanaethau
4	Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg
5	Delwedd Gyhoeddus Ofcom
6	Gweithredu'r cynllun

Tudalen

3
5
7
9
13
17

Atodiad

1	Ymateb i'r ymgynghoriad hwn
2	Egwyddorion ymgynghori Ofcom
3	Taflen ymateb i'r ymgynghoriad

Tudalen

21
23
24

Adran 1

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnesau cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.
- 1.2 Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 1.3 Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.4 Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk.
- 1.5 Paratowyd y cynllun drafft hwn yn unol ag Adrannau 12 i 14 y Ddeddf – ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf.

Adran 2

Cefndir

- 2.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol a'r awdurdod gystadleuaeth ar gyfer diwydiannau cyfathrebu'r DG, â chyfrifoldebau am deledu, radio, telathrebu a gwasanaethau cyfathrebu di-wifr. Fe'i sefydlwyd o dan y Ddeddf Gyfathrebiadau 2003 gyda'r bwriad o weithredu er budd dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chysylltiadau a gweithredu er budd defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.
- 2.2 Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ystyried barnau a buddiannau'r rheiny sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DG, ac i sicrhau bod anghenion ac amgylchiadau arbennig ardaloedd amrywiol yn cael ystyriaeth lawn yn holl weithredoedd Ofcom.
- 2.3 Yn ogystal â'i bencadlys yn Llundain, mae gan Ofcom bresenoldeb drwy gydol y DG gyda swyddfeydd rhanbarthol ar draws Lloegr a swyddfeydd cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r strwythur hwn yn rhoi hyblygrwydd i'r sefydliad fynd i'r afael â materion sy'n effeithio un neu sawl rhan o'r DG fel ei gilydd.
- 2.4 Mae'r strwythur hwn hefyd yn caniatáu i Ofcom i dargedu a sefydlu perthynas unigryw gyda randdeiliaid ar draws pob sector yng Nghymru drwy gyfarfodydd a chyfathrebiadau. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau ag adrannau yng Nghymru megis BBC Cymru, ITV Wales a BT yn ogystal â chyrff cynhenid fel S4C, TAC a Chyngor Defnyddwyr Cymru. Sefydlwyd perthynas weithiol dda a chynhelir trafodaethau cyson gyda Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac aelodau etholedig ar draws llywodraeth. Mae'r fframwaith hwn yn caniatáu i Ofcom ymgynghori'n helaeth gyda dinasyddion yng Nghymru drwy ddigwyddiadau cyhoeddus a seminarau.
- 2.5 Mae gan swyddfa Ofcom Cymru ddeg aelod o staff ac mae Cyfarwyddwr Cymru yn aelod o uwch grŵp rheoli Ofcom.
- 2.6 Mae gan Ofcom gynrychiolwyr o Gymru ar ei Banel Defnyddwyr a'i Bwrdd Cynnwys. Yn ogystal mae gan Ofcom Bwyllgor Ymgynghorol i Gymru, ag iddo naw o aelodau, i gynghori Ofcom ar farnau a buddiannau'r Cymry ar holl faterion cyfathrebu, ac i ddylanwadu ar bolisiau rheoleiddio.
- 2.7 Mae gan Ofcom linell ffôn Gymraeg yn ei Ganolfan Gyswilt ar gyfer delio â chwynion cwsmeriaid. Am wasanaeth Gymraeg cysylltwch â'r Ganolfan ar 020 7981 3042.
- 2.8 Am ragor o wybodaeth am Ofcom ewch i wefan Ofcom www.ofcom.org.uk. Ceir manylion cyswilt llawn ar gyfer Ofcom ar ddiwedd y cynllun hwn.

Adran 3

Cynllunio a darparu gwasanaethau

Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

- 3.1 Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddant, bryd bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.
- 3.2 Pan fyddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.
- 3.3 Mae cyflwyno polisiâu, mentrau a gwasanaethau newydd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Darparu gwasanaethau

- 3.4 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.
- 3.5 Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd y gwasanaethau hyn ar gael yn Gymraeg.

Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau yr ymgwymerir â hwy ar ein rhan gan drydydd partïon

- 3.6 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Safonau ansawdd

- 3.7 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen, lle bo'n rhesymol ymarferol.

Adran 4

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

- 4.1 Ry'n ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.2 Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:
- 4.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amserau targed ar gyfer ateb i lythyrau a ysgrifennir yn Saesneg.
- 4.4 Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 4.5 Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynnydd ei chael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 4.6 Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.
- 4.7 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.8 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.9 Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth electronig yn ogystal â gohebiaeth bapur.
- 4.10 Caiff pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg a anfonir ei lofnodi gan neu ar ran awdur yr ohebiaeth.
- 4.11 Byddwn yn datblygu system i gofnodi dewis iaith y rhai sy'n dewis gohebu â ni yn Gymraeg.
- 4.12 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyr na fydd angen eu cyhoeddi'n Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fydd yr ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

Llythyrau yn nodi penderfyniad

- 4.13 Os bwriedir i lythyr sy'n nodi penderfyniad gyfleu polisi i gynulleidfa llawer ehangach na'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad, neu unrhyw weithdrefn statudol arall, byddwn yn ystyried p'un a ddylid ei drin, o dan y cynllun hwn, fel cyhoeddiad.

Gohebu dros y ffôn

- 4.14 Ry'n ni'n croesawu gohebu dros y ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.15 Yng Nghymru ein harfer safonol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.16 Bydd staff ein switsfwrdd yng Nghymru yn ateb gyda chyfarchiad dwyieithog.
- 4.17 Bydd ein prif switsfwrdd yng Nghymru yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb.
- 4.18 Byddwn yn annog ein staff yng Nghymru i ateb y ffon gyda chyfarchiad dwyieithog ac i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.
- 4.19 Os bydd galwr i Ofcom yn dymuno siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.20 Os bydd galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n cymryd yr alwad wneud hynny, byddwn yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.21 Os na fydd siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, naill ai i aros i siaradwr Cymraeg ffonio nôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr, ffacs neu dros yr e-bost.
- 4.22 Pan fyddwn yn gosod llinellau cymorth, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth iaith Saesneg.
- 4.23 Ni fyddai'n ymarferol i'n swyddfeydd tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg; fodd bynnag ry'n ni wedi sefydlu llinell ffôn Gymraeg yn ein Canolfan Gyswilt er mwyn delio ag ymholiadau o'r cyhoedd.

Cyfarfodydd cyhoeddus

- 4.24 Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.
- 4.25 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog, ac yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael, neu'n gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw o'r iaith y dymunant ei siarad.
- 4.26 Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.
- 4.27 Ein harfer safonol fydd darparu papurau cyffredinol a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, megis manylion siaradwyr ac agenda yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.28 Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynychu, fel y bo'r angen. Bydd

siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddynodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.29 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.
- 4.30 Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig iddynt barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn Gymraeg.
- 4.31 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio fideo gynadledda ac offer tebyg.
- 4.32 Oherwydd lleoliad ein swyddfeydd eraill ni fyddai'n ymarferol iddyn nhw gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.33 Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 4.34 Pryd bynnag y bo'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a hoffent ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- 4.35 Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg.
- 4.36 Ein harfer safonol fydd sicrhau y gwneir cyhoeddiadau dros systemau cyfarch cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.37 Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau clywedol neu gyfrwng rhyngweithiol rydym yn eu paratoi yn ddwyieithog yng Nghymru.

Adran 5

Delwedd gyhoeddus Ofcom

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion

- 5.1 Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.
- 5.2 Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).
- 5.3 Dim ond yn Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.4 Nid yw'n arfer gan Ofcom i hysbysebu ar deledu na radio ond ble ddarlledir y cyfrwy hysbysebion o fewn rhaglenni Cymraeg byddant yn ddwyieithog.
- 5.5 Bydd llinellau ymateb a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.
- 5.6 Pan fydd angen staff i ofalu am stondinau ac arddangosfeydd yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol, fel y bo'n briodol. Bydd siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddynodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg.

Cyhoeddiadau

- 5.7 Mae Ofcom yn cyhoeddi nifer o brif gyhoeddiadau bob blwyddyn, gydag oddeutu 60,000 o gopiâu yn cael eu dosbarthu i randdeiliaid gan gynnwys aelodau'r cyhoedd. Mae'r dogfennau hyn yn amrywio o ddeunydd technegol i ddeunydd wedi ei dargedu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DG a thu hwnt.
- 5.8 Mae Ofcom yn cydnabod y dylid darparu deunydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, os yw'n berthnasol i Gymru neu wasanaethau sydd o bwysigrwydd neu berthnasedd i ddefnyddwyr a busnesau yng Nghymru.
- 5.9 Cyhoedda Ofcom ddogfennau ymgynghorol a nifer o gyhoeddiadau eraill ar faterion sydd â chanlyniadau neu oblygiadau penodol i ddefnyddwyr. Pan gyhoeddir fersiwn 'Plain English' o ddogfen byddwn, lle bo'n rhesymol ymarferol, yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen, ar yr un pryd.
- 5.10 Lle bo'n rhesymol ymarferol, byddwn yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen ar yr un pryd.

- 5.11 Bydd deunydd ar gyfer cynulleidfa benodol neu gyfyng yn fwy tebygol o'i gyhoeddi mewn un iaith. Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i nodi'n wrthrychol pa ddeunydd i flaenoriaethu wrth gyfieithu.
- 5.12 Os yw cyhoeddiadau yn ymddangos yn y categori dwyieithog ond yn ddibynnol ar wasanaethau cyfieithu, bydd gofyn i weithwyr Ofcom caniatáu amser cyfieithu yn wrth lunio'u hamserlenni cynhyrchu. Ni fydd cyhoeddiadau dwyieithog yn cael eu hystyried yn barod nac yn cael eu cyhoeddi hyd oni fydd y ddau fersiwn yn barod.
- 5.13 Os oes yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a lle bo'n rhesymol ymarferol byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Pan gyhoeddir fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân bydd y naill fersiwn a'r llall yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.14 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.
- 5.15 Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni ddylai pris dogfen ddwyieithog fod yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yr un peth.
- 5.16 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

Gwefannau

- 5.17 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 5.18 Ein harfer safonol fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.
- 5.19 Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan, dros amser.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 5.20 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gyfan gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.
- 5.21 Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os bydd un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.22 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.
- 5.23 Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan yng Nghymru, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

- 5.24 Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu nifer y ffurflenni sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 5.25 Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau mynediad, tocynnau, gwahoddiadau, cyfathrebiadau electronig a cherbydau.
- 5.26 Bydd templed safonol ar gyfer cyfathrebiadau electronig megis ymwadiadau, llofnod ac ymatebion allan o'r swyddfa ar ein mewnrwyd.
- 5.27 Gallwn ddefnyddio deunydd brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

Arwyddion yng Nghymru

- 5.28 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob un o'n harwyddion parhaol a thros dro, sy'n cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog, ac y bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.
- 5.29 Byddwn yn glynu at yr arfer hwn lle bynnag y caiff arwyddion eu gosod am y tro cyntaf, neu bryd bynnag y byddwn yn ailosod arwyddion.
- 5.30 Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.
- 5.31 Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwydd, yn cynnwys arwyddion electronig.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

- 5.32 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddosberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.
- 5.33 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.34 O ran y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.
- 5.35 Gellir cyhoeddi yn Saesneg hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddosberthir ledled y DG, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg, ac os hynny, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog.

- 5.36 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n ymddangos unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

- 5.37 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg pan fo'r wybodaeth yn berthnasol i Gymru neu o bwysigrwydd neu berthnasedd i ddefnyddwyr a busnesau yng Nghymru.
- 5.38 Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg.

Adran 6

Gweithredu'r cynllun

Staffio

- 6.1 Er mwyn darparu gwasanaeth Gymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru, caiff y gweithdrefnau canlynol eu dilyn yn ein swyddfa yng Nghymru:
- 6.2 Byddwn yn nodi ac yn adolygu'n gyson y gweithfannau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithfan neu dîm, neu fe all fod ynghlwm wrth swydd benodol.
- 6.3 O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i sefydlu nifer y staff a all siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu, a'u lleoliad (yn cynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn adnabod staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.
- 6.4 Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a datblygu.
- 6.5 Yn ein swyddfeydd eraill byddwn yn chwilio am wybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr swyddi a staff presennol. Trafodir hyn o dan Recriwtio, isod.

Recriwtio

- 6.6 Ry'n ni'n croesawu gohebiaeth recriwtio yn Gymraeg ac yn Saesneg a gwnawn hynny'n amlwg mewn hysbysebion recriwtio sy'n benodol ar gyfer ein swyddfa yng Nghymru.
- 6.7 Ein harfer safonol wrth recriwtio yw i ofyn i ymgeisyddion ddarparu CV a llythyr cais ac felly nid ydym yn darparu pecynnau gwybodaeth na ffurflenni cais.
- 6.8 Pan fyddwn yn recriwtio staff ar gyfer ein swyddfa yng Nghymru byddwn yn dilyn y wybodaeth a gesglir wrth ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan Staffio uchod.
- 6.9 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.
- 6.10 Lle na ellir canfod ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, anogir y sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.
- 6.11 Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn hanfodol, ond lle gellir caniatáu amser i'r ymgeisydd ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at y lefel benodol o fedrusrwydd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn un o'r amodau cyflogi.
- 6.12 Pan na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol (neu os penodir ymgeisydd na all siarad Cymraeg ond sy'n dysgu Cymraeg), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n gallu siarad Cymraeg o fan arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

- 6.13 Ar gyfer unrhyw swyddi sy'n cynnwys cyswllt sylweddol a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried p'un a yw bod yn rhugl yn Gymraeg yn sgil ddymunol neu'n hanfodol – a nodir hyn yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

Hyfforddiant iaith

- 6.14 Caiff ein staff eu hannog i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg – a byddwn yn cefnogi'r rhai sydd am wneud hynny.
- 6.15 Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.
- 6.16 Byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant i staff yng Nghymru sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau – ac sydd am ddysgu Cymraeg, neu sydd am wella'u Cymraeg.

Hyfforddiant galwedigaethol

- 6.17 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n ymarferol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 6.18 Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 6.19 Pryd bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Gweithio mewn partneriaeth

- 6.20 Mae Ofcom yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid ar faterion amrywiol. Fel corff rheoleiddio nid yw'n arfer safonol gennym i weithredu fel arweinydd strategol nac ariannol o fewn partneriaeth na chonsortïwm.

Trefniadau mewnol

- 6.21 Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.
- 6.22 Bydd gan reolwyr y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.23 Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i ddarparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 6.24 Byddwn yn paratoi, ac yn diweddar yn barhaus cynllun gweithredu manwl, gan nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

- 6.25 Cyhoeddir y cynllun hwn i'n gweithwyr ymhob un o'n swyddfeydd, a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg. Rhoddir y cynllun ar ein mewnwyd ('The Loop') er mwyn i bob un o weithwyr Ofcom i fod yn ymwybodol o'r cynllun.
- 6.26 Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, ar gyfer ein staff ymhob un o'n swyddfeydd er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn, yn unol â'u cyfrifoldebau.
- 6.27 Caiff cyfarwyddiadau desg presennol, neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan ein staff, eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
- 6.28 Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi ar gyfer pob aelod o staff perthnasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac er mwyn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.
- 6.29 Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys y byddwn yn eu defnyddio i helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r cynllun hwn.
- 6.30 Byddwn yn ymgymryd âg unrhyw gyswilt gyda'r cyhoedd yng Nghymru, na sydd wedi ei ddisgrifio'n benodol yn y cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y cynllun.

Monitro

- 6.31 Byddwn yn monitro'n cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn targedau a nodir yn y cynllun gweithredu a ddaw gyda'r cynllun hwn.
- 6.32 Bydd ein gweithdrefnau monitro a chofnodi presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.
- 6.33 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais, gan amlinellu'r cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn.

Adolygu a diwygio'r cynllun

- 6.34 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn tair blynedd o'i roi ar waith.
- 6.35 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.
- 6.36 Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Atodiad 1

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

Mae Ofcom yn gwahodd barnau a sylwadau ysgrifenedig ar y materion a godir yn y ddogfen hon, i'w gwneud erbyn **5pm ar 22 Mawrth, 2006**

Mae'n well gennym dderbyn ymatebion fel atodiadau e-bost, ar fformat Microsoft Word, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflym ac effeithlon. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech ein cynorthwyo trwy lenwi taflen glawr ymateb (Gweler Atodiad 2), ynghyd â phethau eraill i nodi a oes materion cyfrinachol ai peidio. Gellir llwytho'r daflen glawr i lawr o adran 'Ymgynghoriadau' ein gwefan.

A fydddech cystal ag anfon eich ymateb at meleri.thomas@ofcom.org.uk

Fel arall gellir anfon ymatebion drwy'r post neu dros y ffacs i'r cyfeiriad isod gyda theitl yr ymgynghoriad arnynt.

Meleri Thomas

Ofcom
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
Ffacs: 029 2046 7233

Sylwer nad oes angen copi caled arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Sylwer hefyd na fydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion.

Byddai o gymorth pe gallech gynnig esboniad am eich barn a sut byddai cynigion Ofcom yn effeithio arnoch chi.

Gwybodaeth Pellach

Os hoffech drafod y materion a'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes angen cyngor arnoch am y ffordd briodol i ymateb, cysylltwch â Meleri Thomas ar 029 2046 7217.

Cyfrinachedd

Cred Ofcom ei bid hi'n bwysig i bawb sydd â diddordeb mewn mater i weld y barnau a fynegir gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Byddwn felly fel arfer yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk. Byddwn yn gwneud hyn wrth dderbyn ymatebion, oni bai bod ymatebwyr yn gofyn fel arall ar eu taflen glawr ymateb.

Caiff yr holl sylwadau eu trin fel rhai nad ydynt yn gyfrinachol oni bai bod ymatebwyr yn nodi fel rhan o'r ymateb neu'r ymateb cyfan yn gyfrinachol ac na ddylid ei ddatgelu. Rhowch unrhyw rhannau cyfrinachol ymateb mewn atodiad ar wahân, fel y gellir cyhoeddi rhannau nad ydynt yn rhai cyfrinachol gydag enw'r ymatebwr.

Mae Ofcom yn cadw ei bŵer i ddatgelu unrhyw wybodaeth a gaiff pan fo hyn yn ofynnol i fodloni ei swyddogaethau. Bydd Ofcom yn rhoi'r ystyriaeth ofynnol i gyfrinachedd gwybodaeth a roir.

Sylwer hefyd y cymerir bod hawlfraint a phob eiddo deallusol arall mewn ymatebion yn drwyddedig i Ofcom ei ddefnyddio, i fodloni ei ofynion cyfreithiol. Esbonnir ymagwedd Ofcom at hawliau eiddo deallusol ymhellach ar ei wefan, sef www.ofcom.org.uk/about_ofcom/gov_accountability/disclaimer.

Camau Nesaf

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ei Gynllun Iaith yn ystod Gwanwyn 2006.

Sylwer y gallwch gofrestru i gael hysbysiadau awtomatig pan gyhoeddir dogfennau Ofcom, ar http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm.

Prosesau ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn awyddus i wneud ymateb i ymgynghoriadau yn hawdd, ac mae wedi cyhoeddi rhai egwyddorion ymgynghori (gweler Atodiad 2) y mae'n ceisio eu dilyn, gan gynnwys y rheiny ar hyd ymgynghoriadau.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar sut mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch e-bost atom ar consult@ofcom.org.uk. Byddem yn benodol yn croesawu barnau ar sut y gallai Ofcom gael barnau'r grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, yn fwy effeithiol, y mae'n llai tebygol o gael eu barnau mewn ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, gallwch fel arall gysylltu â Vicki Nash, Cyfarwyddwr yr Alban ac hyrwyddwr ymgynghori Ofcom

Vicki Nash
Ofcom
Tŷ Sutherland
149 Stryd St Vincent
Glasgow G2 5NW
Ffôn: 0141 229 7401
Ffacs: 0141 229 7433
E-bost: vicki.nash@ofcom.org.uk

Atodiad 2

Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A2.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Lle bo'n bosibl, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl i'r cyfeiriad cywir. Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir am bwy yr ydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori hon mor fyr a syml â phosibl. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, gallwn ddarparu fersiwn fyrrach i sefydliadau llai neu unigolion na fyddent fel arall yn gallu rhoi'r amser i rannu eu barnau.

A2.5 Byddwn fel arfer yn caniatáu deg wythnos ar gyfer ymatebion, ac eithrio ar ddatrys anghydfod.

A2.6 Bydd person yn Ofcom a fydd yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb yng nghanlyniadau ein penderfyniadau. Yr unigolyn hwn (sef yr hyrwyddwr ymgynghori) fydd hefyd y prif berson i gysylltu ag ef gyda barnau am y ffordd y cynhaliwn ein hymgyngoriadau.

A2.7 Os na allwn ddilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn esbonio pam. Gall hyn fod oherwydd bod mater penodol yn fater brys. Os oes angen i ni leihau'r amser a neilltuwyd gennym ar gyfer ymgynghoriad, byddwn yn rhoi gwybod i'r rheiny dan sylw o flaen llaw mai 'ymgyngoriad baner goch' yw hwn y mae angen arno eu sylw brys.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8. Byddwn yn edrych ar bob ymateb yn ofalus a chyda meddwl agored. Byddwn yn rhoi rhesymau am ein penderfyniadau ac yn esbonio sut yr helpodd farnau'r rheiny dan sylw ffurfio'r penderfyniadau hynny.

Atodiad 3

Taflen ymateb i'r ymgynghoriad

- A3.1 Er mwyn tryloywder, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb i'r ymgynghoriad yn llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, oni bai bod ymatebwr yn nodi bod ei ymateb llawn neu ran o'i ymateb yn gyfrinachol. Byddwn hefyd yn cyfeirio at gynnwys ymateb wrth esbonio ein penderfyniad, heb ddatgelu'r wybodaeth benodol yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol.
- A3.2 Rydym wedi llunio taflen glawr ar gyfer ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un gyda'ch ymateb. Bydd hyn yn cyflymu prosesu ymatebion, ac yn helpu cadw cyfrinachedd trwy adael i chi ddatgan yn glir iawn yr hyn na hoffech ei gyhoeddi. Byddwn yn cadw'ch taflenni clawr wedi'u llenwi yn gyfrinachol.
- A3.3 Gellir gwella ansawdd ymgynghori trwy gyhoeddi ymatebion cyn i gyfnod yr ymgynghoriad ddod i ben. Yn benodol, gall hyn helpu'r unigolion a'r sefydliadau hynny gydag adnoddau neu gyfarwydd-deb cyfyngedig â'r materion i ymateb mewn ffordd fwy gwybodus. Byddai Ofcom felly'n annog ymatebwyr i lenwi eu taflenni clawr mewn modd sy'n galluogi Ofcom i gyhoeddi eu hymatebion wrth eu derbyn, yn hytrach nag aros tan fod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.
- A3.4 Mae'n llawer gwell gennym dderbyn ymatebion ar ffurf atodiad Microsoft Word i e-bost. Mae ein gwefan felly'n cynnwys copi electronig o'r daflen glawr hon, y gallwch ei lwytho i lawr o adran 'Ymgynghoriadau' ein gwefan.
- A3.5 Rhowch unrhyw rannau cyfrinachol o'ch ymateb mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb, fel y cânt eu nodi'n glir. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a phrofiad personol. Os hoffech gadw'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl swydd yn gyfrinachol, rhowch nhw yn eich taflen glawr yn unig fel nad oes rhaid i ni olygu eich ymateb.

Taflen glawr ar gyfer ymateb i ymgynghoriad Ofcom**MANYLION SYLFAENOL**

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt Ofcom):

Enw'r ymatebwr:

Yn cynrychioli (ei hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os heb ei dderbyn ar e-bost):

CYFRINACHEDD

Beth yr hoffech i Ofcom ei gadw'n gyfrinachol?

Dim

☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

☐

Ymateb cyfan

☐

Sefydliad

☐

Rhan o'r ymateb

☐

Os nad oes unrhyw atodiad ar wahân, pa rannau?

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu sefydliad i fod yn gyfrinachol, a all Ofcom gyhoeddi gyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys rhannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol sydd ddim yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn caniatáu i chi gael eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r daflen glawr hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Gellir ei chyhoeddi yn llawn ar wefan Ofcom oni bai y nodir fel arall ar y dalen glawr hon, ac rwy'n rhoi'r awdurdod i Ofcom ddefnyddio'r wybodaeth yn yr ymateb hwn i fodloni ei ofynion cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ngwybodaeth ar e-bost, gall Ofcom anwybyddu unrhyw destun e-bost safonol sy'n sôn am beidio â diogelu cynnwys ac atodiadau e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth eu derbyn. Os nad yw'ch ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan neu'n rhannol), ac os byddai'n well gennych i ni gyhoeddi eich ymateb ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben yn unig, ticiwch yma

Enw

Llofnod (os copi caled)

☐

